# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2025

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Gary Pritchard (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Paul Ellis, Glyn Haynes, Kenneth P Hughes, Aled Morris Jones, Dyfed Wyn Jones, Margaret Murley Roberts, Alwen Pennant Watkin a Robin Williams

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,
Swyddog Pwyllgorau (MEH),
Swyddog Gweddarlledu Gwasanaeth Pwyllgorau (FT).

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Carwyn Jones

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodir uchod.

**2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2025 yn gywir.

**4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**5 PENODIADAU STAFF**

**Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmer**

Roedd adroddiad y Prif Weithredwr yn nodi, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2025, fod swydd newydd y Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmer yn cael ei hysbysebu o 3 Tachwedd, 2025 tan 24 Tachwedd, 2025.

Argymhellwyd fod y Pwyllgor Penodiadau, fel y cytunwyd yn flaenorol, yn dilyn y broses recriwtio:-

- Fod y Pwyllgor yn cefnogi argymhelliad y Swyddog ar gyfer rhestr fer.
- Cyfweliad proffesiynol gyda'r Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.
- Bydd canlyniad y cyfweliad proffesiynol yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Penodiadau er mwyn llywio eu penderfyniad terfynol.

- Yr asesiad seicometrig annibynnol, yr asesiad MTQ48 a’r cyfweliad proffesiynol.

**PENDERFYNWYD derbyn argymhelliad y Swyddog ar gyfer y rhestr fer a chefnogi’r broses ar gyfer recriwtio, fel yr amlinellir uchod.**

**6 PENODIADAU STAFF**

**Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio**

Roedd adroddiad y Prif Weithredwr yn nodi, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2025, fod swydd newydd y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio yn cael ei hysbysebu o 3 Tachwedd, 2025 tan 24 Tachwedd, 2025.

Argymhellwyd fod y Pwyllgor Penodiadau, fel y cytunwyd yn flaenorol, yn dilyn y broses recriwtio:-

- Fod y Pwyllgor yn cefnogi argymhelliad y Swyddog ar gyfer rhestr fer.
- Cyfweliad proffesiynol gyda’r Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr a’r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.
- Bydd canlyniad y cyfweliad proffesiynol yn cael ei rannu gyda’r Pwyllgor Penodiadau er mwyn llywio eu penderfyniad terfynol.
- Yr asesiad seicometrig annibynnol, yr asesiad MTQ48 a’r cyfweliad proffesiynol.

**PENDERFYNWYD derbyn argymhelliad y Swyddog ar gyfer y rhestr fer a chefnogi’r broses ar gyfer recriwtio, fel yr amlinellir uchod.**

**Y CYNGHORYDD GARY PRITCHARD**
**CADEIRYDD**